Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Crwban Bach**

**Adeilad Dros Blant**
**Long Street**
**Trefdraeth**
**SA42 0TJ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

22/01/2020

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Roedd Crwban Bach wedi'i gofrestru yn 2016 ac mae'n darparu gofal cofleidiol a gofal ar ôl ysgol ar gyfer hyd at 16 o blant rhwng 3 a 12 oed. Mae'r gwasanaeth yn cynnig sesiwn gofleidiol rhwng 9am a 12.55pm neu rhwng 12pm a 3.15pm, a sesiwn ar ôl ysgol rhwng 3.20pm a 5.30pm, yn ystod y tymor, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu o adeilad Dros Blant yn Nhrefdraeth, Sir Benfro. Elizabeth Davies yw'r person cofrestredig, a hi a Katie Morris yw'r personau â chyfrifoldeb. Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu'n ddwyieithog ac mae'n cynnig y 'Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg' mewn perthynas â'r Gymraeg.

## Crynodeb

| Thema | Gradd |
|---|---|
| Llesiant | **Da** |
| Gofal a Datblygiad | **Da** |
| Yr Amgylchedd | **Da** |
| Arwain a Rheoli | **Da** |

**1. Asesiad cyffredinol**

Gwelsom fod y plant yn mwynhau eu hunain yn fawr iawn yng nghlwb y Crwban Bach. Cânt hwyl gyda'u ffrindiau ac maent yn cael gofal mewn amgylchedd diogel ac ysgogol. Maent yn cael gofal gan staff magwrus a chyson sy'n ymrwymedig i ddiwallu eu hanghenion unigol. Mae'r rhieni'n hapus iawn gyda'r gwasanaeth a ddarperir.

**2. Gwelliannau**

Mae'r person cofrestredig wedi cyflawni'r argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad arolygu diwethaf mewn perthynas â dogfennaeth.

**3. Gofynion ac argymhellion**

Gwnaethom argymhellion mewn perthynas â llesiant ac arwain a rheoli. Mae'r rhain wedi'u nodi yng nghefn yr adroddiad.

## 1. Llesiant Da

### Crynodeb

Gwrandewir ar y plant yng nghlwb y Crwban Bach ac maent yn gwneud dewisiadau. Maent yn teimlo'n hapus, yn ddiogel ac maent wedi setlo. Maent yn mwynhau cyfleoedd da i gymdeithasu â'u cyfoedion yn ystod chwarae rhydd a arweinir gan y plant yn ogystal â gweithgareddau a gynlluniwyd.

### Ein canfyddiadau

Mae'r plant yn gwneud penderfyniadau effeithiol ynghylch eu chwarae o amrywiaeth o weithgareddau a gaiff eu cynnig yn y clwb. Roeddent yn dewis chwarae â gweithgareddau sy'n addas i'w hoedran megis dinosoriaid, doliau, pêl-droed, gemau amrywiol, gweithgareddau creadigol a thoes chwarae. Roeddent yn gallu cael gafael ar adnoddau a oedd wedi'u gosod yn yr ystafell, ond roeddent yn hyderus ynghylch gwneud ceisiadau i'r staff ac yn gwybod y byddai eu hanghenion yn cael eu diwallu lle y bo'n bosibl. Er enghraifft, gofynnodd un plentyn am gael chwarae gêm o ddrafftiau, ac aeth aelod o'r staff i'w ôl o'r cwpwrdd storio er mwyn i'r plentyn ei chwarae.

Dywedodd y plant wrthym y gallent ofyn i'r staff am yr adnoddau yr oeddent am eu cael, a gwelsom hyn ar waith pan wnaethant ofyn yn hyderus am y toes chwarae a'r pensiliau ar gyfer tynnu lluniau. Roedd y plant yn cyrraedd y clwb yn hapus, gan wenu a chwerthin gyda'u ffrindiau. Roeddent yn fwy na pharod i ymgysylltu â'r plant eraill, ac roeddent yn sgwrsio â'r staff ynglŷn â'r hyn roeddent am ei chwarae ac am eu hoff chwaraewyr pêl-droed. Roeddent yn rhyngweithio'n hyderus â'r arolygydd, gan sgwrsio am eu hoff weithgareddau yn y clwb. Roedd y plant yn gwybod â phwy y byddent yn siarad os oeddent yn teimlo'n drist a dywedwyd wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn y clwb. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn mwynhau mynychu'r clwb, chwarae gyda'u ffrindiau, chwarae pêl-droed, tynnu lluniau, lliwio a helpu i gyflawni tasgau. Roedd ganddynt gydberthnasau da iawn â'r staff a gwnaethant ddangos eu gwaith celf i'r staff yn hapus ac yn falch, yn ogystal â sôn wrthynt am sut roeddent yn teimlo. Er enghraifft, dywedodd un plentyn wrth aelod o'r staff ei fod yn teimlo'n flinedig, a chafodd faldod a sicrwydd. Roedd y plant yn chwarae gyda'i gilydd ac roeddent yn cydweithredu'n dda iawn yn ystod ein hymweliad. Er enghraifft, gwnaeth un plentyn helpu plentyn arall i ddod o hyd i bapur yn ddigymell er mwyn i'r ddau ohonynt allu cwblhau gweithgaredd crefft gyda'i gilydd. Roedd ymdeimlad o gymuned yn y clwb, ac roedd y plant yn helpu ei gilydd ac yn dangos cwrteisi. Roedd y plant hŷn yn helpu'r plant iau i arllwys dŵr amser byrbryd a dewisodd pob plentyn ddweud diolch mewn amrywiaeth o ieithoedd wrth gael byrbryd. Roedd y plant yn barod i wahodd y plant eraill i chwarae a gwnaethant sgwrsio'n fywiog â'i gilydd wrth iddynt chwarae. Neidiodd y plant i fyny ac i lawr a chanu'n uchel pan wnaethant sgorio gôl yn y gêm pêl-droed pen bwrdd.

Roedd y plant yn symud yn rhydd o un gweithgaredd i'r llall ac roeddent wedi ymgolli mewn gweithgareddau poblogaidd megis lliwio a chwarae drafftiau am gryn dipyn o amser. Roedd rhai o'r plant yn ymlacio yn yr ardal â charped ac yn canu'n dawel i'w hunain. Ni welsom y plant yn chwarae yn yr awyr agored oherwydd y tywydd garw. Fodd bynnag, gwelsom

dystiolaeth ffotograffig o'r plant yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau yn yr awyr agored. Roedd gweithgareddau'n cynnwys cwrs rhwystrau, gemau pêl-droed, ac ymweliadau â'r traeth a'r parc.

Roedd y plant yn gyfforddus yn eu hamgylchedd gan ddangos hyder wrth gynnig help ar bob cyfle. Er enghraifft, roedd y plant yn dosbarthu platiau a chwpanau, yn arllwys dŵr ac yn cynnig tost i'r plant eraill. Gwnaeth y plant dacluso ar wahanol adegau yn ystod ein hymweliad a golchi a sychu eu dwylo yn annibynnol. Fodd bynnag, gellir datblygu mwy o gyfleoedd i feithrin annibyniaeth y plant amser byrbryd.

## 2. Gofal a Datblygiad Da

### Crynodeb

Mae'r staff yn adnabod y plant y maent yn gofalu amdanynt yn dda ac yn darparu gofal ymatebol sy'n diwallu eu hanghenion unigol. Maent yn creu awyrgylch hamddenol a gofalgar lle caiff y plant eu cefnogi i gymryd rhan yn eu dewis o weithgareddau.

### Ein canfyddiadau

Mae'r staff yn gwybod bod diogelu'r plant yn flaenoriaeth uchel, ac yn dangos dealltwriaeth dda o ddelio â phryderon neu ddatgeliadau pan roddir senarios iddynt. Roedd y staff wedi cwblhau eu hyfforddiant cymorth cyntaf diweddaraf ac roedd gweithdrefnau clir ar waith i ddelio ag unrhyw ddigwyddiadau neu ddamweiniau, gan gynnwys casglu llofnodion y staff a'r rhieni. Roedd y staff yn dilyn gweithdrefnau hylendid da, er enghraifft yn golchi eu dwylo ac yn sychu byrddau cyn paratoi a gweini byrbrydau. Roedd y rhieni wedi llofnodi'r ffurflenni cydsyniad meddygol brys cyn i'w plant ddechrau yn y gwasanaeth.

Roedd y staff yn annog y plant i rannu, i fod yn garedig i'w gilydd ac i ystyried teimladau'r plant eraill. Roedd y staff yn dilyn polisi ymddygiad y gwasanaeth. Roeddent yn gadarnhaol iawn, gan ganmol y plant yn rheolaidd. Roedd y staff a'r plant wedi creu arddangosfa a oedd yn pwysleisio nodweddion ffrind da. Roedd y staff yn modelu ymddygiad disgwyliedig drwy siarad â'i gilydd ac â'r plant yn garedig. Roeddent yn eistedd gyda'r plant ac yn rhyngweithio mewn ffordd gadarnhaol, gan siarad â nhw am yr hyn roeddent yn ei chwarae neu'n chwarae gemau gyda'r plant.

Roedd y staff yn darparu gofal magwrus ac ymatebol. Roeddent yn adnabod y plant yn dda ac yn gyfarwydd â'u dymuniadau o ran eu dewisiadau chwarae. Roedd y staff yn cynllunio gweithgareddau ar y cyd â'r plant, megis nosweithiau gemau, tennis, noswaith ffilm, pobi a chrefftau Santes Dwynwen. Roedd y staff yn cynnig cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau chwarae wedi'u harwain gan y plant ym mhob sesiwn. Roedd tystiolaeth ffotograffig yn dangos y plant yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau megis coginio, cyfleoedd i weld anifeiliaid egsotig, paentio, picnic a theithiau cerdded yn y goedwig. Roedd y gwasanaeth wedi cymryd rhan yng nghystadlaethau celf a chrefft Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ac wedi ennill yn yr adran pypedau a'r adran tecstiliau grŵp. Roedd y gwasanaeth yn darparu'r ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg.

## 3. Yr Amgylchedd Da

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, a'i fod yn addas ar gyfer ystod oedran y plant sy'n cael gofal. Mae ardal gemau aml-ddefnydd amgaeedig ar gael i'r plant yn yr awyr agored, a gallant fanteisio ar adnoddau addas a glân.

### Ein canfyddiadau

Mae'r plant yn ddiogel gan fod y drws i'r neuadd yn cael ei gadw ar glo ac ni chaiff ymwelwyr ddod i mewn heb fod aelod o'r staff yn agor y drws iddynt. Roedd manylion pob ymwelydd â'r gwasanaeth yn cael eu cofnodi. Roedd y rhieni yn llofnodi cofrestr wrth gasglu eu plant o'r gwasanaeth. Roedd cofnodion cynnal a chadw yn dangos bod y larymau tân a mwg wedi cael eu profi. Roedd y diffoddwyr tân ar y wal wedi cael eu gwasanaethu ac roedd yr arweinwyr yn cynnal ymarferion tân rheolaidd er mwyn sicrhau bod y plant a'r staff yn gyfarwydd â gweithdrefnau gwagio'r adeilad. Roedd yr holl gyfarpar trydanol wedi cael prawf PAT, ac roedd y boeler yn cael ei wasanaethu'n flynyddol. Roedd y dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn cael ei harddangos ar hysbysfwrdd ac roedd yn gyfredol. Roedd cyfarpar glanhau yn cael ei storio mewn cwpwrdd, allan o gyrraedd y plant, ac roedd yr amgylchedd yn lân ac yn daclus. Roedd yr arweinwyr yn cwblhau asesiadau risg trylwyr o'r ardaloedd a ddefnyddiwyd gan y plant ac yn cadw cofnodion.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael gofal mewn amgylchedd sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Roeddent yn gwneud defnydd da o'r gofod sydd ar gael i'r plant gael chwarae, gorffwys a bwyta. Roeddent yn trefnu byrddau er mwyn darparu ardal amser byrbryd lle gallai'r plant fwynhau eu byrbrydau mewn grŵp cymdeithasol. Mae yna ardal i'r plant gael ymlacio a darllen. Roedd y gwasanaeth yn defnyddio ardal gemau aml-ddefnydd amgaeedig awyr agored yr ysgol leol. Yn ogystal, roedd yn defnyddio ei gyfarpar ei hun yn yr ardal awyr agored, megis peli, parasiwt a cherbydau reidio.

Roedd amrywiaeth o deganau a gemau o ansawdd da ar gael i'r plant chwarae dan do ac yn yr awyr agored. Roedd llyfrau darllen a gemau Cymraeg ar gael. Roedd yr adnoddau'n lân ac mewn cyflwr da, ac roedd digon o ddewis ar gyfer grŵp oedran y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Roedd digon o ddeunyddiau ar gael ar gyfer gweithgareddau crefft megis paent, pinnau ffelt, creonau a phensiliau lliw.

## 4. Arwain a Rheoli — Da

**Crynodeb**

Mae'r arweinwyr wedi datblygu systemau a gwiriadau er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei gynnal yn ddidrafferth. Mae systemau ar waith er mwyn adolygu ansawdd y gofal y maent yn ei ddarparu. Mae'r arweinwyr wedi datblygu partneriaethau da â'r rhieni a'r ysgol leol.

**Ein canfyddiadau**

Mae gan y gwasanaeth ddatganiad o ddiben ar waith sy'n rhoi darlun cywir o'r gwasanaeth a ddarperir. Fodd bynnag, mae'r amserau agor ar gyfer y gwasanaeth cofleidiol a'r gofal ar ôl ysgol yn amrywio o un tymor i'r llall, a dylid rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Arolygiaeth Gofal Cymru am y newidiadau hyn bob tymor. Mae'r arweinwyr yn adolygu eu polisïau a gweithdrefnau yn rheolaidd, ac mae'r staff yn eu rhoi ar waith yn effeithiol yn eu harferion beunyddiol. Er enghraifft, roedd y staff yn dilyn y dulliau cadarnhaol, a amlinellir ym mholisi rheoli ymddygiad y gwasanaeth, drwy gydol ein hymweliad.

Mae'r arweinwyr yn adolygu ansawdd y gwasanaeth bob blwyddyn ac yn llunio adroddiad sy'n llawn gwybodaeth. Roedd y sylwadau o holiaduron y rhieni a'r plant yn gadarnhaol. Dywedodd y rhieni bod eu plant yn mwynhau dod i'r gwasanaeth gymaint fel eu bod nhw wedi gofyn a gael dod hyd yn oed ar y diwrnodau pan nad oedd disgwyl iddynt fod yno.

Roedd gan y staff gymwysterau addas. Roedd un aelod o'r staff wrthi'n cwblhau cymhwyster lefel 3 mewn gwaith chwarae, ac roedd gan bob aelod arall o'r staff gymwysterau perthnasol. Roeddent wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ddiogelu, cymorth cyntaf pediatrig a hylendid bwyd. Roedd yr arweinwyr yn cynnal arfarniadau blynyddol a sesiynau goruchwylio rheolaidd ar y staff ac roeddent wedi nodi anghenion hyfforddi a thargedau o ran datblygu. Roedd ffeil bron pob aelod o'r staff yn cynnwys y dogfennau cywir.  Fodd bynnag, nid oedd ffeil un aelod o'r staff yn cynnwys geirdaon. Rhoddwyd geirdaon yn y ffeil cyn diwedd y broses arolygu.

Roedd y rhieni a'r gofalwyr yn siarad yn gadarnhaol iawn am y gwasanaeth. Roeddent yn hapus â'r wybodaeth a gawsant cyn i'w plentyn ddechrau yn y gwasanaeth. Roedd yr arweinwyr yn cael sgwrs hamddenol â'r rhieni a'r gofalwyr ar ddiwedd y sesiwn ynghylch amser eu plant yn y gwasanaeth. Roedd yr arweinwyr wedi cytuno ar gontractau gyda'r holl rieni, ac wedi ceisio caniatâd am wahanol agweddau megis tynnu ffotograffau. Dywedodd y rhieni wrthym fod y gwasanaeth yn cyfathrebu'n dda â nhw. Mae gan y gwasanaeth gydberthynas dda â'r ysgol y mae'n ei gwasanaethu. Mae'n sicrhau bod y plant yn parhau i fod yn rhan o'r gymuned drwy gymryd rhan mewn cystadlaethau celf lleol a chenedlaethol.

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

## 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Rydym yn argymell y canlynol;

- rhoi mwy o annibyniaeth i'r plant yn ystod amser byrbryd;
- cadw geirdaon y staff yn ffeiliau'r staff;
- sicrhau bod AGC yn cael eu diweddaru bob tymor am newidiadau i'r gwasanaeth, yn enwedig amserau agor

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Rhoddwyd adborth dros y ffôn yn ddiweddarach.

Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 17 a 22 Ionawr 2020 am gyfanswm o tua phedair awr a hanner. Gwnaethom y canlynol:

- archwilio sampl o ddogfennau a pholisïau;
- arsylwi ar yr ymarfer;
- cynnal arolygiad gweledol o'r safle;
- arsylwi ar blant yn defnyddio adnodd SOFI (Fframwaith arsylwi byr ar gyfer arolygu) ac arsylwadau grŵp cyffredinol,
- siarad â'r person cofrestredig, y person â chyfrifoldeb, y staff, y rhieni, y gofalwyr a'r plant.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal y Tu Allan i'r Ysgol** |
| **Person Cofrestredig** | **Elizabeth Davies** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Katie Morris**<br>**Elizabeth Davies** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **16** |
| **Ystod oedran y plant** | **3 – 12 oed** |
| **Oriau agor** | **9am-12.55pm, 12pm-3.15pm, 3.20pm-5.30pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener , yn ystod y tymor yn unig** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Dwyieithog** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **28 Ebrill 2017** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **17 Ionawr 2020** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Ydy. Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r "Cynnig Rhagweithiol" ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi**<br>**ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 19/03/2020